



Adroddiad y Prif Arholwr

Arholiadau Aelodaeth Sylfaenol Hydref 2012

Mae Aelodaeth Sylfaenol yn cyfateb i waith a wneir dan oruchwyliaeth ar lefel broffesiynol sylfaenol. Disgwylir i'r ymgeisydd gynhyrchu gwaith cywir, addas a graenus o fewn terfynau amser.

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 19

Llwyddo: 4

Yn anffodus, er bod rhai pethau da i'w canfod yng ngwaith mwyafrif yr ymgeiswyr, siom yw gorfod nodi mai canran fechan yn unig a gyrhaeddodd y safon angenrheidiol i llwyddo yn yr arholiad y tro hwn. Wedi dweud hynny, er mai 4 yn unig oedd yn llwyddo, roedd nifer o ymgeiswyr eraill yn ffiniol, ac nid oedd yr un ymgais yn wirioneddol wael.

Roedd y ddau ddarn a osodwyd yn fwriadol yn ymdrin â meysydd digon cyffredin sydd yn rhan o brofiad beunyddiol cyfieithwyr wrth eu gwaith, gan mai'r nod oedd gosod prawf digonol a theg heb dynnu cyfieithwyr ar y lefel hon allan o'u dyfnder.

Un peth a all achosi trafferth i ymgeiswyr yn yr arholiad yw'r ffaith na allant wirio termau ac ati ar y we. Y tro hwn, felly, am y tro cyntaf, ychwanegwyd nodyn ar flaen y papur arholiad yn annog ymgeiswyr i dynnu sylw'r arholwyr at unrhyw dermau oedd wedi achosi anhawster neu ddryswch, neu y buasant yn eu gwirio yn eu sefyllfa waith arferol. Da oedd gweld nifer o ymgeiswyr yn manteisio ar y cyfle hwn, ac yn cyfeirio at dermau megis *Universal Credit*, y byddent wedi hoffi eu gwirio ar y we, neu yn egluro pam roeddent wedi dewis cyfieithu ambell elfen arall mewn ffordd arbennig.

Dyma rai enghreifftiau o gyfieithu effeithiol a gafwyd yn y ddau ddarn a osodwyd:

*The government's shake-up of the benefits system is widely seen as the biggest change...
Y farn gyffredinol yw mai ad-drefnu'r system budd-daliadau gan y llywodraeth yw'r newid mwyaf...*

...it will enable savings of more than £2bn...

...bydd yn fodd i arbed dros £2bn...

He also provided a ten point rebuttal...

Hefyd, fe ddarparodd ddeg pwynt i wrthbrofi...

...2.8 million people will be better off...

...bydd 2.8 miliwn o bobl yn well eu byd...

Piloting is already underway...

Mae prosiect peilot eisoes yn mynd rhagddo...

...the scheme will be phased in over a number of years.

...bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno'n raddol dros nifer o flynyddoedd.

While many young people do very well at school,...

Er bod llawer o bobl ifanc yn llwyddo'n dda iawn yn yr ysgol,...

...others do not do as well as they should.

...nid yw eraill yn gwneud cystal ag y dylent.

...the skills and qualifications they need to be successful in the future.

...y sgiliau a'r cymwysterau y mae eu hangen arnynt i fod yn llwyddiannus yn y dyfodol.

Transferring to a secondary school at the age of 11 would allow more time for information, advice and guidance to be given by staff who know the children...

Byddai trosglwyddo i ysgol uwchradd yn 11 oed yn caniatáu mwy o amser i gael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gan staff sy'n adnabod y plant...

ond cafwyd hefyd gyfieithiadau aflwyddiannus, megis:

The government's shake-up of the benefits system is widely seen as the biggest change...

- 1) Ystyrir cynllun ailwampio budd-daliadau'r Llywodraeth fel y newid mwyaf...***
- 2) Mae ad-drefniad y llywodraeth o'r gyfundrefn budd-daliadau yn cael ei weld yn eang fel y newid mwyaf...***
- 3) Mae ad-drefniad y llywodraeth o'r system budd-daliadau yn cael ei ystyried yn gyffredinol i fod y newid mwyaf...***

Several benefits will be combined into a single payment...

- 1) caiff sawl budd-dal ei gyfuno mewn un taliad...***
- 2) fe fydd amryw o fudd-daliadau yn cael eu cyfuno mewn un tâl unigol.***
- 3) Cyfunir sawl taliad... i mewn un taliad unigol...***

...by limiting the scope for undeclared and undisclosed earnings.

- 1) ...gan gyfyngu'r terfynau am enillion heb eu datgelu a'u datguddio.***
- 2) ...drwy gyfyngu'r ffin o ran yr enillion hynny sydd wedi eu datgan a'r rhai nad ydynt wedi'u datgan.***
- 3) ...trwy gyfyngu'r ystod o enillion na ddatgenir a nas datguddir.***

While many young people do very well at school...

- 1) Tra bod nifer o'n ieuencid yn llwyddo yn yr ysgol...***
- 2) Tra bo rhai pobl ifanc yn gwneud yn dda iawn yn yr ysgol...***
- 3) Tra mae nifer o bobl ifanc yn gwneud yn dda iawn yn yr ysgol...***

Raising attainment at every level in our schools remains one of the county council's key objectives.

- 1) **Mae codi safonau ar bob lefel yn ein hysgolion yn parhau i fod yn un o brif nodau'r cyngor sir.**
- 2) **Un o brif amcanion y cyngor sir eisoes yw gwella cymhwyster ar bob lefel yn ein hysgolion.**
- 3) **Codi safonau yn ein hysgolion yw un o amcanion allweddol y cyngor sir.**

Transferring to a secondary school at the age of 11 would allow more time for information, advice and guidance to be given by staff who know the children...

- 1) **Byddai symud i ysgol uwchradd yn 11 oed yn caniatáu rhagor o amser i roi gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd i aelodau staff sy'n adnabod y plant...**
- 2) **Buasai trosglwyddo i ysgol eilradd yn unarddeg oed yn rhoi mwy o amser i wybodaeth, cyngor ac arweiniad gael eu rhannu gan staff sy'n adnabod y plant...**
- 3) **Byddai adleoli i ysgol uwchradd pan y 11 oed yn caniatáu mwy o amser er mwyn i wybodaeth, cyngor ac arweiniad gael ei roi gan staff sydd yn eu hadnabod...**

Fel y nodwyd eisoes, siomedig oedd y safon ar y cyfan. Y ddau wendid pennaf oedd methu â chyfleu'r union ystyr ar y naill law, a methu â chyfuno cywair a chystrawen yn briodol ac yn llyfn ar y llall. Er bod mwyafrif yr ymgeiswyr yn fwy llwyddiannus o ran yr elfen 'Cywirdeb', mae angen iddynt ddysgu trosi ystyr testun yn fanwl gywir, a chafwyd yr argraff nad oedd crefft cyfieithu yn ddigon cyfarwydd i nifer sylweddol ohonynt. Dylid eu hannog i fanteisio ar yr ystod eang o weithdai a chyrsgiau hyfforddi sydd ar gael trwy Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru, er mwyn datblygu eu sgiliau cyfieithu. O wneud hynny, gallai'r safon angenrheidiol i lwyddo fod o fewn cyrraedd i nifer ohonynt yn y dyfodol.

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Nifer yr ymgeiswyr: 12

Llwyddo: 3

Teimlai'r arholwyr fod safon y cyfieithiadau y tro hwn yn rhagori rhywfaint ar yr hyn a gafwyd mewn rowndiau blaenorol, a llwyddodd 25% o'r ymgeiswyr i gyrraedd y safon angenrheidiol. Da oedd nodi hefyd bod mwyafrif y cynigion yn dangos gafael eithaf da ar y Saesneg. Y gwendidau amlycaf oedd methiant i lunio brawddegau effeithiol, a methiant i gyfleu union naws y ddau ddarn, yn enwedig dychan crafog yr awdur yn Narn 2.

Dyma rai enghreifftiau o ymdrechion canmoladwy i fynegi'r testun Cymraeg mewn Saesneg graenus:

Mae dawn ysgrifennu Judy yn dod â'r ymdrech arwrol a'r caledi y bu'n rhaid i'r ddau eu hwynebu yn fyw mewn ffordd ogleisiol a difyr iawn.

Judy's talent for writing brings to life, in a very amusing and pleasant way, the heroic effort and the hardship they both had to face.

Maenordy oedd Gwydir yn wreiddiol, ac mae'n debyg ei fod yn un o'r esiamplau gwyachaf sydd ar ôl yng Nghymru.

Originally a manor house, it is likely that Gwydir is one of the finest examples left in Wales.

Bu yno beunod yn crwydro'r gerddi ers y 19^{eg} ganrif...
Peacocks have roamed the gardens since the 19th century...

A dyna a wnaethant yng Ngwydir...
And that's what they did at Gwydir...

...pan feddiannwyd hi gan ysbryd mileinig un o gyn-feistresi'r tŷ.
...when she was possessed by the vicious ghost of one of the house's former mistresses.

Ond wyddoch chi beth barodd y chwerthin mwyaf?
But do you know what caused the most laughter?

Roedd popeth arall wedi ei drefnu i'r manylyn lleiaf...
Everything else had been planned down to the minutest detail...

Beth am y darn papur, felly?
So, what of the piece of paper?

Wel toedden ni wrth ein boddau!
Well, didn't that just make our day!

A dyma rai enghreifftiau lle na lwyddwyd i greu cyfieithiad oedd yn taro deuddeg:

Rhwymwr llyfrau yw Judy wrth ei chreffft, ac yntau'n hanesydd pensaerniol.
A bookbinder by trade, Judy is also an architectural historian.

Cyn ymweld, darllenwch gofnod Judy Corbett o sut y gwnaeth hi a'i chymar...
Before visiting, read Judy Corbett's chronicle about how she and her partner...

...ysbryd mileinig un o gyn-feistresi'r tŷ.
...the savage spirit of one of the former masters of the house.

Rhyw eilbeth oedd y fflam...
In second place was the flame...

...ar ffurf nodyn mewn beiro.
...in the form of a biro written note.

Mae hi (h.y. y fflam) ar ei ffordd!
She's on her way!

...heb wario gormod o gyllid ychwanegol...
...without spending too much additional monies...

Er bod yr ail ddarn, yn arbennig, yn her i'r ymgeiswyr o ran cyfleu union naws ac arddull y testun, teimlwyd bod nifer o'r gwallau cyffredin yn dangos methiant i bwylo a darllen y darn gwreiddiol yn ddigon gofalus, yn ogystal â diffyg synnwyr cyffredin. Da oedd gweld bod nifer o ymgeiswyr wedi ychwanegu troednodyn i egluro eu bod yn ansicr ynghylch sut i gyfieithu **y Maes** yn narn 2, ond syndod oedd bod cyn lleied o ymgeiswyr wedi sylweddoli y dylent gynnwys y fersiwn Gymraeg o'r neges ar y darn papur, yn ogystal â chyfieithiad Saesneg, i gyfleu ergyd y gwreiddiol.

Cafwyd ansicrwydd hefyd ynghylch amser ffurfiau berfol, yn enwedig yn y darn cyntaf, lle gwelwyd enghreifftiau o ddefnyddio'r gorberffaith yn lle'r perffaith, a'r presennol yn lle'r gorffennol. Siom arall oedd gweld rhai ymgeiswyr yn dal i wneud gwallau gramadegol megis drysu rhwng *it's* ac *its'*.

Fel y soniwyd eisoes, llwyddodd pedwar ymgeisydd, ond nid oedd gwaith yr un ohonynt yn teilyngu gradd 1 ym mhob elfen. Y gobaith yw, felly, y bydd y garfan hon o ymgeiswyr yn parhau i fireinio eu sgiliau cyfieithu, er mwyn medru llunio cyfieithiadau sydd yn llifo'n gwbl naturiol, yn cyfleu union ystyr ac ergyd y gwreiddiol, ac yn argyhoeddi fel darnau o Saesneg gwreiddiol.